CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg CHWEFROR 2023** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :
Cyng. Non W. Parry - Cadeirydd

Cyng. Terry Jones
Cyng. John Lee
Cyng. T. Victor Hughes
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Richard Parry
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Christine Roberts
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Margaret Thomas (Eitem 22/229)

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees (TEAMS)
Geraint Bebb
Heddlu : PC Howell Owens PCSO Alison Williams
Clerc : H. Rhys Parry
Cymhorthydd : Ms.Linda Powell

Cyfarfod yn cael ei Recordio

22/213 Ymddiheuriadau : Cyng. Henry D. Jones
Cyng. Eleri Ll. Burns Cyng. Ieuan Davies
Cynghorydd Sir – Paul Ellis.

22/214 Datganiad o Ddiddordeb : Cyng. Christine Roberts – Eitem 22/225.2 Cyfraniadau 2022/2023 - Gŵyl Cefni.

22/215 Heddlu Gogledd Cymru : Cadeirydd yn croesawu Swyddogion yr Heddlu i'r Cyfarfod.
Y Swyddogion yn adrodd, fel a ganlyn :

1 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol :** Cwynion wedi eu derbyn fod gynnau aer/BB yn cael eu saethu ac yn achosi difrod i eiddo – Dim anafiadau ar hyn o bryd.
Patrolau ychwanegol o amgylch ardal coetiroedd Pencraig yn dilyn dyn yn ceisio dwyn ci;
Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd y Dref, Llangefni, i drigolion gael cyfle i siarad am eu pryderon gyda'r Heddlu a Swyddogion eraill;
Cyng. John Lee yn dwyn sylw'r Heddlu fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud a chyffuriau yn mynd ymlaen o amgylch Capel y Fynwent, Lon Newydd. Clerc yn adrodd bydd goleuadau diogelwch yn cael eu gosod wrth fynediad i'r Fynwent i geisio datrys y broblem. Heddlu yn ymateb y buasai hyn yn effeithiol iawn a bydd yr Heddlu yn cadw golwg ar y safle.

2 **"Community Engagement Project" :** Cyng. Dylan Rees yn holi ynglŷn â chynlluniau'r Prosiect. PCSO Alison Williams yn ymateb fod gwaith ar y cynllun mewn lle, ond fod y Prosiect wedi ei ohirio hyd at Mis Ebrill .

Cadeirydd yn diolch i'r Swyddogion am eu mewnbwn.

22/216 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 16.01.2023
Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

22/217 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 16.01.2023

1 Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu trwy'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion. Clerc yn cadarnhau fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa, fel a ganlyn :
Eitem 22/185 - Rhaglen y Cyfarfod Llawn : Eglurhad ynglŷn â rhybudd ysgrifenedig;
Eitem 22/188.2 – Precept 2023-2024 : Dylid cyfanswm ffigwr y Precept gael ei gofnodi – Clerc yn cadarnhau'r ffigwr £270,130.98. **Derbyn**

22/218 Cynllunio

Cyflwynwyd Cofnod o Gyfarfod Pwyllgor Cynllunio 07.02.2023 - PENDERFYNWYD derbyn y cynnwys.

22/219 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 23.01.2023

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

1 **Materion yn Codi o'r Cofnodion uchod : Cyng. J. E. Lewis yn tynnu sylw at y canlynol :**
Eitem 22/196 – Cymorth HR, Cwmni Ellis Whittham : Clerc yn ymateb bydd y mater yma yn cael ei drafod ymhellach yng Nghyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor .
Eitem 22/198 - I Ystyried Rhestr Cyfraniadau 2022/2023 : Yn dilyn derbyn llythyr 01.02.2023 gan Radio Cymunedol Môn FM yn rhoi gwybod o'u gwasanaeth i'r Gymuned, awgrymodd Cyng. Lewis i gynyddu'r cyfraniad o £50.00 i £100.00. Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cyfrannu £100.00 i Radio Môn FM. Cyng. John Lee yn atal pleidlais ac yn holi am y broses o rannu'r cyfraniadau - Cyng. Lewis a Cyng. Christine Roberts yn egluro.

22/220 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 31.01.2023

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod fel rhai cywir.

Materion yn Codi o'r Cofnodion uchod : Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at y canlynol:

1 Eitem 22/207.1 - Maes Chwarae, Lon Las - Eglurhad gan y Clerc fod un rhan o'r giât ddwbl erbyn hyn ar agor a mynediad i'r safle yn fwy cyfleus. Y rhan arall o'r giât yn gallu cael ei agor bob amser, fel bo angen. Cytunwyd i gynnwys Eitem ar Raglen nesaf Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae i drafod amserlen cau'r giatiau a.y.b. **Derbyn**
Eitem 22/207.2 - Maes Chwarae Rhosmeirch - Mannau Tyrchod Daear ar y cae - Clerc i gysylltu gyda'r Contractwr i ddatrys y broblem. **Derbyn**

22/221 I Dderbyn unrhyw Gyfathrebion y Maer :

Y Maer, Cyng. Non W. Parry yn adrodd ar y canlynol :

1 Agoriad Swyddogol – Canolfan Glanhwfa 02.03.2023 – Atgoffa'r Aelodau i Ymateb i'r Gwahoddiad;

2 Digartref Cyf. Dathliad Penblwydd 25ain – 23.02.2023 – Maer a'r Dirprwy Faer i fynychu;

3 Arwisgiad Brenin Charles III - 06.05.2023 - Cadeirydd yn gofyn i'r Aelodau anfon unrhyw syniadau ar gyfer y dathlu ymlaen i'r Swyddfa. Cyng. J.Egryn Lewis yn awgrymu derbyn gwybodaeth os oes unrhyw Fudiadau eraill wedi gwneud trefniadau. Dim trafodaeth bellach -

22/222 Materion yn codi gan Aelodau :

1 **Cyng. Eleri Ll. Burns - Gwesty'r Bull :** Yn absenoldeb Cyng. Burns, Y Clerc yn arwain ar yr Eitem yma. Clerc yn datgan fod dim gwybodaeth wedi ei dderbyn yn y Swyddfa ynglŷn â

PARHAD 22/222.1

chynlluniau ar gyfer defnydd o'r Gwesty o dan reolaeth newydd. Cyng. Christine Roberts yn datgan fod saith o bobl leol digartref yn byw yn yr adeiladau tu allan i'r Gwesty, gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Dim trafodaeth bellach.

22/223 Adroddiad y Clerc

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Trosglwyddiad Cae Criced :** Cyfreithwyr y partïon yn gweithio trwy ei gilydd i baratoi'r Ddogfen Contract Drafft TR1, i gwblhau'r trosglwyddiad. Diolch i Cyng. Richard Parry am y canlyniad yma.

2 **Y Fynwent, Lon Newydd :** Yn y broses o dderbyn amcangyfrif i osod goleuadau diogelwch o flaen Capel Bach y Fynwent, i geisio rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol. **Derbyn**

Datblygiadau'r Fynwent Newydd, Penlan : Mr. Gwyn Hughes, Asiant yn cyfathrebu gyda'r Ecolegydd i symud ymlaen gyda'r Adroddiadau astudio'r ardal am leoliad y coed a.y.b. o flaen paratoi'r Cais Cynllunio. Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

3 **Teithiau Llesol :** Staff y Cyngor Tref a Cyng. Terry Jones wedi cyfarfod gyda Swyddogion Prosiect Teithiau Llesol i edrych ar y gwelliannau o gwmpas safle Iceland. Gwaith gosod y meinciau ar hyd Lôn Las Cefni wedi ei gwblhau. Gwaith ar y gweill i osod y fainc yn Rhostrehwfa. Cyng. Terry Jones yn canmol y gwaith uchod ac yn diolch i staff y Cyngor Tref a Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn am gyd-weithio ar y Prosiect.

22/224 Adroddiadau pwyllgorau allanol :

1 **Coleg Menai Llangefni - Agoriad Swyddogol Canolfan Chwaraeon 26.01.2023 :** Ymhlith y Swyddogion yn yr Agoriad, roedd Shane Williams, Rygbi'r Undeb, wedi mynychu fel gwestai arbennig. Cyng. Richard Parry yn awyddus i drefnu ymweliad o gwmpas y safle uchod i Aelodau'r Cyngor Tref, ac wedi crybwyll hyn gyda Prif Weithredwr y Coleg. Bydd Cyng. Parry mewn cysylltiad â'r Coleg maes o law. **Derbyn**

7.15y.h. Cyng. Arwel Môn Hughes yn gadael y Cyfarfod

2 **Un Llais Cymru - Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Ynys Môn - 06.10.2022 :** Cofnodion wedi eu hanfon at yr Aelodau - er gwybodaeth. **Derbyn**

22/225 Cyllid

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Ionawr 2023**

Cadeirydd yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa i dderbyn eglurhad ynglŷn â disgrifiad derbyniadau tri siec a dderbyniwyd fel taliadau'r Fynwent, fel a ganlyn :

- 23.01.2023 – D62 – Y Fynwent £150.00 : Gwaith Cerrig Beddi, Amlwch;
- 23.01.2023 - D63 – Y Fynwent £260.00 : Melvin Rowlands, Ymgymerwr
- 23.01.2023 - D64 - Y Fynwent £550.00 : Melvin Rowlands, Ymgymerwr.

Yn dilyn yr uchod Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Christine Roberts yn Eilio i dderbyn y Fantolen . **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Ionawr 2023.

22/226 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :

Cynghorydd Sir Dylan W. Rees a Geraint Bebb yn adrodd ar y canlynol :

- Newyddion trist iawn fod Ffatri "Two Sisters" wedi cyhoeddi cau'r ffatri gyda cholled oddeutu 700 o swyddi. Yn dilyn trafodaethau, does dim newid i'r penderfyniad gydag Asiantau yn gweithio gyda'i gilydd i geisio cynorthwyo'r gweithwyr;;
- Cynllun Lleisiant Gwynedd a Môn - Ymgynghoriad y Cynllun Drafft;
- Enw "YSGOL CORN HIR" wedi ei godi ar yr Adeilad;
- Pont y Borth wedi ail-agor;

PARHAD 22/226

- Cais Cynllunio - Tir ar Lon Penmynydd (Dafarn Newydd) i leoli cabanau gwyliau, cael ei gyflwyno yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ar 1af o Fawrth 2023, gydag Ymweliad Safle i'w drefnu..

Cadeirydd yn diolch i Gynghorwyr y Cyngor Sir am eu mewnbwn

22/227 Gohebiaeth a Materion Newydd : Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

1 **Llythyr Radio Cymunedol Môn FM - 01.02.2023 :** Wedi ei drafod o dan Eitem 22/219.1 o'r Rhaglen. **Derbyn**

2 **Llythyr Hosbis Dewi Sant - 25.01.2023 :** Cytuno gwahodd Swyddog Codwr Arian Cymunedol, i roi cyflwyniad ar wasanaeth yr Hosbis. **Derbyn**

3 **Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi 01.03.2023 - E-bost gan Menter Môn 08.02.2023 :** Gofyn am wirfoddolwyr i stiwardio ar y diwrnod - Trefniadau ar gyfer hyn trwy Swyddfa'r Cyngor Tref.

4 **Cyngor Sir Ynys Môn - Llythyr 06.02.2023 - Gorchymyn Traffig Arfaethedig, Cyfyngiad Cyflymder 30MYA Ffordd Cyswllt, Llangefni :** Cyng. Geraint Bebb yn esbonio'r ffordd a'r cyflymder o gwmpas y cylchfannau. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** ymateb i lythyr y Cyngor Sir gyda'r sylwad dylai'r uchafswm 30mya ddod i ben ar y cylchfan ger Coleg Menai ac nid wrth Ysgol y Graig - Gorfodi 20mya o'r cylchdro ger y Coleg tuag at Ysgol y Graig.

22/228 Gohebiaeth : Er gwybodaeth :
Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Ionawr 2023 :

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**
2 **Materion Eraill - Derbyn**

22/229 I Ystyried Unrhyw Fater Brys Gan y Maer :

1 **Cais i Godi Trwydded 142 ar gyfer Ardal Llangefni :** Clerc yn adrodd fod Swyddog o Gyngor Sir Cyngor Sir Ynys Môn wedi cadarnhau fod Trwydded 142 yn bodoli i'r Cyngor Tref osod Potiau Blodau a.y.b. o gwmpas y dref.
Cylchfan, Lon Penmynydd, Yn dilyn derbyn cais gan drigolyn i barhau i gynnal a chadw'r cylchfan, bydd angen codi Trwydded 142 ar gyfer hyn. Clerc yn cadarnhau buasai dim cost i'r Cyngor Tref, gyda'r Cyngor Sir yn cyhoeddi'r Drwydded. Yn dilyn trafodaeth, ac oherwydd ansicrwydd rhai o'r Aelodau, **PENDERFYNWYD** gofyn am bleidlais ar godi Trwydded 142 neu beidio. Chwe Aelod yn pleidleisio i godi Trwydded 142 gyda Cyng. Gwenan Evans a Cyng. Lewis yn atal eu pleidlais. **PENDERFYNWYD YMHELLACH** i'r Clerc dderbyn cadarnhad gan y Cwmni Yswiriant bod yr uchod wedi'i gynnwys o dan Yswiriant y Cyngor Tref.

2 **Menter Gymdeithasol Llangefni - Llythyr 02.02.2023 :** Clerc yn rhoi crynodeb o gynnwys y llythyr, sydd ar hyn o bryd ddim wedi ei rannu gyda'r Aelodau. Clerc yn egluro fod tri phwynt pwysig i'w trafod, sef, Farchnad y Dref, Parc Sglefrio Plas Arthur, a'r Cae Criced, Yn dilyn trafodaeth, a mewnbwn gan Aelodau, awgrymwyd y canlynol :

- Penderfyniad terfynol i'w roi o flaen y Cyfarfod Llawn;
- Fel cam cyntaf, i gynnwys Eitem ar Raglen Cyfarfod Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae;
- Clerc i ymchwilio cefndir rhai o ofynion y llythyr.

PENDERFYNWYD cynnwys y llythyr uchod fel Eitem ar Raglen Cyfarfod Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 27ain o Fawrth 2023.

22/230 Dyddiad y Cyfarfod nesaf : Nos Lun 13eg o Fawrth 2023

1 Cyng. Geraint Bebb yn rhoi gwybod o'r canlynol :
Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned 27.02.2023 (Cynrychiolydd y Cyngor Tref); Tocynnau ar gyfer Cyngerdd Canolfan Glanhwfa 02.03.2023 ar gael yn Siop Cwpwrdd Cornel.

CYNG. NON W. PARRY - CADEIRYDD